Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg:** Adroddiad Blynyddol 2017-18

Mehefin 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@cynulliad.cymru**
Twitter: **@CynulliadCymru**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: Adroddiad Blynyddol 2017-18

Mehefin 2018

www.cynulliad.cymru

# Cynnwys

**Cyflwyniad ....... 6**

Rôl y Pwyllgor ....... 6

Gwaith ac ystyriaethau ....... 8

**Casgliadau a sylwadau ....... 11**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17 ac Archwilio Allanol ....... 11

Archwilio Mewnol ....... 12

Rheoli risg ....... 13

Rheoli newid ....... 14

Llywodraethu Gwybodaeth ....... 15

Adolygiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor ....... 15

Edrych tua'r dyfodol ....... 15

Casgliad ....... 17

**Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad ....... 18**

Aelodaeth ....... 18

Adroddiadau ....... 18

Cyfrifoldebau ....... 18

Hawliau ....... 19

Mynediad ....... 19

Cyfarfodydd ....... 19

**Atodiad 2: Yr adolygiadau Archwilio Mewnol a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ....... 22**

# Cyflwyniad

**1.** Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad (y Pwyllgor) yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn ar ei waith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, sef ail flwyddyn y Pumed Cynulliad.

**2.** Daeth Manon Antoniazzi yn Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad a'r Swyddog Cyfrifyddu ar 24 Ebrill 2017, ac rydym wedi datblygu perthynas waith agos a chynhyrchiol gyda hi.

**3.** Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar waith y Pwyllgor mewn cysylltiad â threfniadau llywodraethu'r Comisiwn, a'i waith o ran rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a'r fframwaith sicrwydd. Mae'n tynnu sylw at gylch gwaith y Pwyllgor, y gwaith a gyflawnwyd a'r canfyddiadau a'r argymhellion cysylltiedig, yr hyn y mae'r Pwyllgor yn bwriadu canolbwyntio arno yn 2018-19, a'n casgliadau cyffredinol.

**4.** Mae 2017-18 wedi bod yn flwyddyn o lwyddiannau a heriau sylweddol i'r Comisiwn, gan gynnwys: paratoi ar gyfer trosglwyddo i Ddeddf Cymru 2017 a'r pwerau datganoledig newydd; rhaglen diwygio'r Cynulliad; trawsnewid digidol; ystyried gofynion adeiladau'r Cynulliad yn y dyfodol; yr Adolygiad Capasiti yn ôl cais y Comisiwn; a'r paratoadau ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Bu gwaith craffu agos ar gyllideb ac adnoddau'r Comisiwn hefyd gan Bwyllgor Cyllid a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad.

## Rôl y Pwyllgor

**5.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau yn ymwneud â rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol.

**6.** Rôl gynghori sydd gan y Pwyllgor, ac nid oes ganddo bwerau gweithredol. Mae'n rhoi cyngor ar ba mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd, gan gynnwys y gwasanaeth archwilio mewnol ac allanol. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor (**atodiad 1**) a'r **flaenraglen waith** wedi'u llunio'n unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

**7.** Mae **aelodau presennol** y Pwyllgor (un o Gomisiynwyr y Cynulliad, dau gynghorwr annibynnol, y mae un ohonynt yn Gadeirydd, ac aelod annibynnol o'r Pwyllgor) wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn. Roedd y canlynol hefyd yn bresennol yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

- Manon Antoniazzi – Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn);
- Nia Morgan - Cyfarwyddwr Cyllid;
- Dave Tosh – y Cyfarwyddwr Adnoddau;
- Gareth Watts – Pennaeth Archwilio Mewnol / Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd;
- Ann-Marie Harkin – Arweinydd Ymgysylltu, Swyddfa Archwilio Cymru;
- Matthew Coe – Rheolwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru (mis Ebrill i fis Tachwedd);
- Gareth Lucey – Rheolwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru (mis Tachwedd i fis Mawrth);
- Kathryn Hughes – Rheolwr Risg a Llywodraethu; Clerc y Pwyllgor;
- Buddug Saer – Dirprwy Glerc y Pwyllgor.
- Daeth swyddogion eraill o Gomisiwn y Cynulliad i gyfarfodydd yn ôl yr angen hefyd.

**8.** Cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfodydd preifat gyda'r archwilwyr allanol a'r rhai mewnol a Phrif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad er mwyn sicrhau bod y berthynas rhyngddynt yn parhau i fod yn effeithiol.

**9.** Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn drwy'r Comisiynydd ar ôl pob cyfarfod, ac yn cyhoeddi cofnodion y cyfarfodydd ar **wefan** y Cynulliad. Mae Cadeirydd y Pwyllgor hefyd yn mynd i gyfarfod gyda'r Comisiynwyr i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor cyn diwedd tymor yr haf.

## Gwaith ac ystyriaethau

**10.** Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn, gyda'r flaenraglen waith yn llywio ei weithgarwch. Roedd yr eitemau ar yr agenda yn cynnwys:

- yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2016-17, gan gynnwys drafft o'r Datganiad Llywodraethu blynyddol;
- cynlluniau archwilio mewnol, adroddiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- cynlluniau ac adroddiadau archwilio allanol;
- adroddiadau rheoli risg ac archwiliadau beirniadol o risgiau corfforaethol unigol;
- y diweddaraf am faterion allweddol a risgiau sy'n dod i'r amlwg;
- trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol, gan gynnwys ystyried polisi cyfrifyddu;
- y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau a rhaglenni newid;
- gwybodaeth gryno am unrhyw achosion o wyro oddi wrth y gweithdrefnau caffael arferol; ac
- adborth gan aelodau'r Pwyllgor a swyddogion am faterion allanol sydd o ddiddordeb.

**11.** Adolygodd y Pwyllgor gyfres o adroddiadau Archwilio Mewnol (**atodiad 2**), a thrafododd adroddiadau ar yr hyn a wnaed gan y rheolwyr i roi'r argymhellion cysylltiedig ar waith.

**12.** Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am y meysydd a nodwyd yn adran 'Edrych Tua'r Dyfodol' Adroddiad Blynyddol 2016-17 ac eitemau allweddol eraill, gan gynnwys:

- meysydd i ganolbwyntio arnynt a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu 2016-17 y Comisiwn drwy ystyriaethau o risgiau corfforaethol y Comisiwn, rheolaeth ariannol, prosiectau mawr ac adroddiadau archwilio mewnol;
- proffilio a lliniaru risgiau, gan gynnwys ar gyfer newid gwleidyddol, deddfwriaethol a chyfansoddiadol, seiberddiogelwch a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR);

- rheoli prosiectau a gweithredu'r system gyllid newydd yn Ebrill 2017;
- diweddariadau rheolaidd ar y sefyllfa ariannol, gan gynnwys cynnydd yn erbyn darparu'r targed gwerth am arian;
- gweithredu argymhellion y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r ymateb iddynt; ac
- yr Adolygiad capasiti.

**13.** Mae'r **Adroddiad Perfformiad Corfforaethol** yn dangos llwyddiant uchel parhaus, gyda'r mwyafrif helaeth o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u nodi yn 'wyrdd'. Mae diweddariadau bob chwarter ar gynnydd rhaglenni a phrosiectau newid bellach yn cael eu hadolygu gan Fwrdd Gweithredol y Comisiwn yn dilyn adolygiad llywodraethu'r Prif Weithredwr, er nad yw wedi'i nodi'n ffurfiol eto yn yr Adroddiad Perfformiad Corfforaethol.

**14.** Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd yn cefnogi ystyriaethau strategol y Comisiwn gan gynnwys yn ymwneud â pherfformiad, trawsnewid, darparu gwasanaeth a llywodraethu. Mae hyn wedi cynnwys:

- cynghori a darparu her yn ystod y prosiect Adolygiad Capasiti;
- mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau, gan gynghori'r Comisiwn a'r Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, ar eu cyfrifoldebau o ran polisïau a systemau arfarnu a thaliadau, gan gynnwys strategaeth a thrafodaethau ar gyflog. Bydd y Pwyllgor yn ystyried argymhellion a wneir gan y Llywydd ynghylch perfformiad y Prif Weithredwr, a chan y Prif Weithredwr ynghylch Cyfarwyddwyr;
- cynghori ar yr uwch dîm newydd a strwythurau a chyfrifoldebau'r bwrdd;
- aelodaeth ar y panel cyn-sifftio ar gyfer recriwtio Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- cynghori ar dystiolaeth ar gyfer sesiynau craffu pwyllgorau ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon gan Bwyllgor Cyllid a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad;
- mynd i un o gyfarfodydd yr uwch dîm rheoli i herio a chraffu ar y datganiadau sicrwydd a ddarperir gan bob Cyfarwyddwr ar gyfer Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu;

- mynd i gyfarfodydd Fforwm Cymru gyfan ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Chynhadledd Archwilio TIAA;
- cyngor a sicrwydd allanol ar gyfer prosiect Adnewyddu'r System Gyllid;
- annog a threfnu cyfleoedd rhwydweithio â sefydliadau eraill y sector cyhoeddus, gan gynnwys seiberddiogelwch a'r Adolygiad Capasiti;
- recriwtio Cynghorwyr Annibynnol newydd.

# Casgliadau a sylwadau

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17 ac Archwilio Allanol

**15.** Cefnogodd y Pwyllgor y broses o baratoi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17, gan gynnwys rhoi cyngor ar yr adran 'defnyddio adnoddau'n ddoeth', a nododd fod y broses honno wedi'i chynnal mewn modd effeithiol ac effeithlon, trwy gydweithrediad, a bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno'n dda ac ar amser.

**16.** Croesawodd y Pwyllgor gyflwyniad cynnar o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol (ISA260) a'r Llythyr Rheoli. Roedd hwn yn archwiliad glân a syml gyda chyfres o gyfrifon o ansawdd uchel. Ni chododd yr archwilwyr allanol unrhyw faterion perthnasol, a chyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad archwilydd diamod ar y datganiadau ariannol ym mis Gorffennaf 2017. Roedd y mater yn ymwneud â thalu cyflog Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi'i ddatrys yn foddhaol ac wedi'i adlewyrchu mewn nodyn i'r datganiad ariannol.

**17.** Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r berthynas waith gref barhaus rhwng yr archwilwyr allanol a'r Archwilwyr Mewnol trwy gyfrwng y 'protocol cydweithio'. Mae'r protocol yn galluogi'r archwilwyr allanol i ddibynnu ar waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol, gan gynnwys yr adolygiad o'r Rheolaethau Ariannol Allweddol.

**18.** Gan adeiladu ar y trefniadau llwyddiannus yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r Pwyllgor yn falch bod y Comisiwn a'r archwilwyr allanol wedi cytuno i ailadrodd y broses garlam ar gyfer Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18, gan gynnwys cynhyrchu cyfrifon interim, a'i fod, ar adeg ysgrifennu hyn, wedi gweithio'n dda eto a bod Cyfrifon 2017-18 mewn trefn dda.

**19.** Bydd y Pwyllgor yn parhau i gydweithio'n agos â'r archwilwyr allanol er mwyn sicrhau bod y prif systemau a rheolaethau ariannol a'r gweithdrefnau sy'n ategu'r broses o baratoi'r cyfrifon yn parhau i fod yn gadarn. Mae'r gostyngiad (o 8%) yn ffi Swyddfa Archwilio Cymru yn 2016-17 yn adlewyrchu cymhwysedd y Comisiwn wrth reoli'r broses gyfrifyddu.

## Archwilio Mewnol

**20.** Caiff gwasanaeth Archwilio Mewnol y Comisiwn ei reoli gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, Gareth Watts, sy'n gyfrifol am ganlyniadau'r holl archwiliadau mewnol. Rydym yn falch bod Gareth wedi parhau i ddatblygu proffil yr adran Archwilio Mewnol ym mhob rhan o'r Comisiwn. Mae Gareth yn cael cymorth allanol, a ddarperir ar hyn o bryd gan TIAA.

**21.** Ar gais y Comisiwn, mae Gareth ac aelodau eraill y tîm Llywodraethu wedi helpu'r Prif Weithredwr gyda'r Adolygiad Capasiti, i ganfod y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o ddefnyddio adnoddau i gyflawni amcanion y Comisiwn ar gyfer y Pumed Cynulliad a thu hwnt. Mae Gareth wedi cydbwyso ei lwyth gwaith estynedig yn dda, ond mae hyn wedi golygu y bu oedi gyda rhai o'r adroddiadau Archwilio Mewnol.

**22.** Rydym yn croesawu'r cynnydd a wnaed yn yr holl feysydd a adolygwyd ac yn cymeradwyo'r ffaith y parhawyd i ganolbwyntio ar sut y mae'r rheolwyr yn gweithredu argymhellion yr Archwilwyr Mewnol. Mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau ar hynny ym mhob cyfarfod. Mae'r rheolwyr wedi cyflawni'r holl argymhellion arwyddocaol o flynyddoedd blaenorol, ac maent yn canolbwyntio'n briodol ar gyflawni'r rhai ar gyfer 2017-18. Mae Barn ac Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol yn cynnwys manylion am y sgorau archwilio ac effeithiolrwydd argymhellion.

**23.** Mae'r archwiliad ar y *Rheolaethau System Cyllid Newydd* wedi cael sgôr 'Sicrwydd Cyfyngedig' siomedig. Roedd y sgôr blaenorol yn 'gryf', ond ar ôl dweud hynny, mae'r holl argymhellion wedi'u gweithredu'n gyflym. Cafodd adolygiad o Lwfansau Aelodau'r cynulliad sgôr Boddhaol. Roedd yr holl archwiliadau eraill a wnaed yn ystod y flwyddyn naill ai yn archwiliadau dilynol neu'n rhai a gynghorir, ac felly ni roddwyd sgôr, ac nid oedd unrhyw broblemau sylweddol.

**24.** Ni chafod achosion o weithgareddau twyllodrus, rhai gwirioneddol na rhai oedd yn cael eu hamau, eu dwyn i sylw'r Archwiliad Mewnol yn 2017-18. Nid oedd unrhyw achos o chwythu'r chwiban yn fewnol chwaith.

**25.** Barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2017-18 yw "…bod y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn ddigonol ac effeithiol." Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr adroddiad yn asesiad da o waith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

**26.** Cadarnhaodd yr adroddiad hwnnw hefyd gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Roedd y Pwyllgor yn falch o

ganlyniadau'r Asesiad Ansawdd Allanol o Archwilio Mewnol, a gynhaliwyd gan Bennaeth Archwilio Mewnol a Risg Senedd yr Alban, a drafodir yn fanwl yn Adroddiad Blynyddol a Barn 2017-18 y Pennaeth Archwilio Mewnol.

**27.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y sicrwydd a gafwyd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol fod digon o adnoddau wedi'u dyrannu o hyd i'r Rhaglen Archwilio.

**28.** Rydym yn croesawu ymrwymiad y Pennaeth Archwilio Mewnol i'w ddatblygiad proffesiynol parhaus ac i fod yn aelod o rwydweithiau proffesiynol, ac yn benodol, ei ymgysylltiad parhaus agos â deddfwrfeydd eraill y DU.

## Rheoli risg

**29.** Parhaodd y Pwyllgor i fonitro effeithiolrwydd prosesau rheoli risg ac roeddem yn fodlon ar safon yr adroddiadau ar risgiau corfforaethol allweddol. Gwnaethom graffu ar y prosesau o ran nodi risgiau allweddol, pennu eu difrifoldeb a'u lliniaru, ac ar effeithiolrwydd prosesau rheoli risg. Cynhaliodd y Comisiwn adolygiad trylwyr o'r gofrestr risg gorfforaethol ac fe'i hadnewyddwyd yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag ymarferion sganio'r gorwel rheolaidd.

**30.** Aethom ati i gynnal adolygiadau trylwyr o'r risgiau corfforaethol canlynol:

- pa mor barod ydym ni ar gyfer y GDPR;
- rheoli Risgiau Corfforaethol rhyng-gysylltiedig y Comisiwn, sy'n cynnwys Newid Cyfansoddiadol, strategaeth gyllideb y Comisiwn, gofynion o ran capasiti corfforaethol ac adeiladau yn y dyfodol.

**31.** Gwnaethom hefyd sicrhau bod y Comisiwn yn canolbwyntio'n briodol ar risgiau diogelwch cyffredinol a seiberddiogelwch, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth gydag Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yn swyddfeydd etholaethol. Mae adran TGCh y Comisiwn wedi cadarnhau nad oedd dim achosion o seiberddiogelwch a arweiniodd at dorri data yn 2017-18.

**32.** Rydym fodlon ar y prosesau sydd ar waith i nodi a rheoli risgiau corfforaethol allweddol ac yn cefnogi cynnwys y risgiau'n ymwneud â diogelwch corfforol, seiberddiogelwch, GDPR, cyfyngiadau cyllideb a newid cyfansoddiadol. Mae wyth risg gorfforaethol gyda sgôr difrifoldeb 'coch', a'r mwyaf o'r rhain yw'r risg sy'n gysylltiedig â'r newid posibl ym maint y Cynulliad. Er ein bod yn cydnabod bod gan y Comisiwn gyfle cyfyngedig i wanhau effaith y risgiau hyn ac yn monitro ac yn lliniaru'r rhain cyn belled ag y bo modd, byddai'r Pwyllgor yn annog gwyliadwriaeth barhaus yma, yn enwedig gan fod nifer o'r risgiau hyn yn rhyng-gysylltiedig.

**33.** Cawsom ein sicrhau gan y raddfa foddhaol gan yr adolygiad archwilio mewnol a oedd yn canolbwyntio ar reoli risgiau lefel gwasanaeth, a chan y modd y cafodd yr holl argymhellion eu rhoi ar waith yn gyflym.

**34.** Yn ein barn ni, un o'r risgiau mwyaf sylweddol o hyd yw'r un sy'n ymwneud ag effeithiau newid gwleidyddol, deddfwriaethol a chyfansoddiadol a'r ymatebion i hynny, ynghyd â chyflawni blaenoriaethau strategol uchelgeisiol y Comisiwn.

## Rheoli newid

**35.** Mae prosesau rheoli newid y Comisiwn yn parhau i aeddfedu, ac rydym yn falch o weld adolygiad ôl-ddeddfwriaethol trylwyr o'r prosiect Adnewyddu'r System Gyllid a'r defnydd cynyddol o brosesau datblygu 'hyfyw'. Mae gan y Bwrdd Gweithredol rôl oruchwylio bwysig ac yn cael diweddariadau bob chwarter am y rhaglen newid gan y Cyfarwyddwyr.

**36.** Mae'r gwaith ar drawsnewid digidol yn seiliedig ar ddull hyfyw o ddarparu prosiectau, dull newydd ar gyfer ymchwil defnyddwyr a'r fframwaith a'r cynllun newid, cyfathrebu ac ymgysylltu.

**37.** Mae Cofnod y Trafodion wedi gwella er mwyn ei gwneud yn haws i'w ddefnyddio ac yn fwy effeithiol ac effeithlon i bobl chwilio drwyddo, rhannu ac ailddefnyddio gwybodaeth gyda mynediad drwy borth hunan-wasanaeth newydd. Ynghyd â datblygiadau eraill FySenedd, mae hyn wedi arwain at enwebu'r Cynulliad ar restr fer Gwobrau Digidol Cymru 2018.

**38.** Mae'r Adolygiad Capasiti wedi catalyddu cynlluniau i integreiddio prosesau cynllunio capasiti, ariannol a gwasanaeth yn well. Mae'r Pwyllgor wedi annog y Comisiwn i gyflwyno proses blaenoriaethu portffolio newid cadarn, sy'n arbennig o bwysig ar adeg lle mae galw cynyddol am newid ynghyd â chyfyngiad o ran adnoddau a chyllid. Rydym yn falch o weld bod hyn yn cael ei ddatblygu, gan roi ystyriaeth ddyledus i'r addasrwydd strategol, effaith/buddiannau gallu cyflawni mentrau newid ymgeiswyr.

## Llywodraethu Gwybodaeth

**39.** Rydym yn parhau i fod yn hyderus â lefel y gweithgarwch codi ymwybyddiaeth ar draws y Comisiwn a chydag Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r Adroddiad Blynyddol gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) yn ategu'r sicrwydd ymhellach fod risgiau gwybodaeth yn cael eu rheoli'n effeithiol. Roedd un achos o golli data personol yr oedd angen adrodd amdano i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Penderfynodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth beidio â chymryd camau pellach gan nad oedd yr achos yn cwrdd â meini prawf y Polisi Camau Rheoleiddiol ar gyfer Diogelu Data.

**40.** Mae'r Comisiwn mewn sefyllfa dda i gyflawni'r rhan fwyaf o'r gofynion ar gyfer GDPR, sy'n dod i rym ym mis Mai 2018. Byddwn yn parhau i fonitro hyn trwy ddiweddariadau rheoli risg rheolaidd.

## Fframwaith sicrwydd

**41.** Mae fframwaith sicrwydd y Comisiwn yn mapio'r ffynonellau sicrwydd gweithredol, corfforaethol ac annibynnol o'u cymharu â'r risgiau corfforaethol, y trefniadau llywodraethu a'r prosesau mewnol. Mae'r fframwaith yn dangos pa mor gryf yn gyffredinol yw ffynonellau sicrwydd y Comisiwn, yn ogystal â'n tynnu sylw at wendidau posibl. Caiff hwn ei adolygu fel mater o drefn i ddilysu trefniadau ac fe'i defnyddir i lywio'r broses o ddrafftio datganiadau sicrwydd lefel gwasanaeth blynyddol.

## Adolygiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor

**42.** Cynhaliodd y Pwyllgor ei arolwg effeithiolrwydd bob dwy flynedd, a gydlynir gan Glercod y Pwyllgor. Fel rhan o hwn, llenwodd aelodau'r Pwyllgor, cynrychiolwyr allanol a swyddogion y Cynulliad holiadur manwl, pwrpasol, a hynny'n ddienw. Roedd y canlyniadau yn galonogol gadarnhaol drwy gydol, gan amlygu perthnasau gwaith cryf ac effeithiol pawb dan sylw. Yr unig gamau sy'n deillio o'r arolwg oedd i ymestyn yr agenda ar gyfer ein cyfarfod ym mis Gorffennaf, pan fyddwn fel arfer ond yn ystyried fersiwn derfynol y cyfrifon.

## Edrych tua'r dyfodol

**43.** Er ein bod yn cydnabod bod rhagor o welliannau wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn, mae bob amser gyfleoedd i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon wrth weithredu a rheoli prosesau llywodraethu, risgiau a rheolaethau. Yn sgil hynny, byddwn yn cymryd diddordeb byw yn y meysydd a ganlyn:

- camau gweithredu, materion o bwys ac argymhellion allweddol sy'n deillio o archwilio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2017-18;
- newidiadau i strwythurau uwch reolwyr a bwrdd llywodraethu'r Comisiwn;
- rheoli'r risg yn ymwneud ag ymateb y Cynulliad i'r newidiadau sylweddol y mae'n eu hwynebu o ran newid sefydliadol a chyfansoddiadol a ddaeth mewn ymateb i Ddeddf Cymru 2017, a gadael yr UE;
- gweithredu argymhellion yr Adolygiad Capasiti, gan gynnwys y dulliau blaenoriaethu portffolio newid newydd;
- gweithredu a chydymffurfio â GDPR;
- mynd i'r afael â'r cynnydd mewn bygythiadau i ddiogelwch ffisegol a seiberddiogelwch, gan gynnwys drwy asesiad manwl o wendidau posibl a chynlluniau ymateb cadarn wedi'u profi;
- symud ymlaen gyda'r portffolio o brosiectau newid, gan gynnwys y rhaglen trawsnewid digidol a'r strategaeth ddiwygiedig ar gyfer ymgysylltu â phobl Cymru;
- unrhyw brosesau cyllidebu diwygiedig, a gwaith craffu y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y rhain, gan gynnwys ynghylch y Gyllideb Penderfynu;
- strategaeth adeiladau'r Cynulliad / Llywodraeth Cymru;
- y Comisiwn yn sicrhau gwerth am arian o gyllideb 2018-19;
- gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol;
- parhau i ddatblygu'r berthynas waith gyda Chomisiwn y Cynulliad ac aelod Comisiynydd y Pwyllgor;
- sicrhau proses gynefino esmwyth a throsglwyddo i'r Cynghorwyr Annibynnol newydd.

**44.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd Deddf Cymru 2017 yn golygu newid sylfaenol yng nghynllun y setliad datganoli ac y bydd hyn yn adlewyrchu ar y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol gan staff y Comisiwn a'i Aelodau. Yn arbennig o berthnasol i'r Comisiwn y mae datganoli pwerau i ddeddfu dros enw'r

Cynulliad a threfniadau mewnol, gweithredol ac etholiadol, a chanfyddiad y cyhoedd o'r newidiadau hyn. Bydd y Pwyllgor yn parhau i gymryd diddordeb byw yn y datblygiadau, ymateb y Comisiwn i'r newidiadau hyn a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig.

## Casgliad

**45.** Rydym yn fodlon bod gennym ddigon o dystiolaeth i roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Comisiwn ynghylch effeithiolrwydd yr amgylchedd risg, rheolaeth a llywodraethu cyffredinol. Yn wir, yn gyffredinol, mae lefelau sicrwydd yn y Comisiwn yn parhau i fod yn uchel. Mae'r ffynonellau sicrwydd yn gadarn ac yn ddibynadwy hefyd, a gwelwyd tystiolaeth o hynny yn yr archwiliad allanol o gyfrifon, y fframwaith sicrwydd ac adolygiadau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol.

**46.** Mae'r Pwyllgor yn diolch i Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad a'i staff am eu hagwedd adeiladol a chydweithredol at waith y Pwyllgor. Mae hyn wedi cynnwys cymryd camau rhagweithiol i rannu gwybodaeth allweddol â'r Pwyllgor y tu allan i'r cyfarfodydd. Rydym yn parhau i groesawu'r berthynas waith dda iawn gyda staff y Comisiwn ac wedi gweld eu bod yn gefnogol, yn agored ac yn barod i dderbyn her.

**47.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar i'r archwilwyr mewnol ac allanol am ymgymryd â'u gwaith mewn modd cadarnhaol a chydweithredol ac i'r Ysgrifenyddiaeth am roi cymorth o'r radd flaenaf unwaith eto.

**48.** Bydd Eric Gregory a Keith Baldwin yn dod â'u deiliadaeth fel Cynghorwyr Annibynnol i ben yn 2018/19. Hoffai'r ddau ohonom nodi cymaint yr ydym wedi mwynhau gweithio gyda'r Comisiwn, sydd wedi bod yn sefydliad ymrwymedig, dynamig a phroffesiynol, sy'n haeddiannol yn falch iawn o'i foesau, gwerthoedd ac ymddygiad. Dymunwn bob llwyddiant i chi yn y dyfodol.

- Eric Gregory, Cadeirydd a Chynghorwr Annibynnol
- Suzy Davies AC, Comisiynydd
- Keith Baldwin, Cynghorwr Annibynnol
- Hugh Widdis, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor

# Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad i'w gynorthwyo â'i gyfrifoldebau dros faterion rheolaeth, risg a llywodraethu. Ei rôl yw adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a geir ac a yw'n bodloni anghenion Comisiwn y Cynulliad a'r Swyddog Cyfrifyddu.

## Aelodaeth

Aelodau **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad** ("y Pwyllgor") yw:

- **Suzy Davies** AC, Comisiynydd;
- Dau **Gynghorwr Annibynnol**: **Eric Gregory** (Cadeirydd) a **Keith Baldwin**;
- Un aelod annibynnol o'r Pwyllgor, **Hugh Widdis**.

## Adroddiadau

Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r **Comisiwn** drwy'r **Swyddog Cyfrifyddu** ar ôl bob cyfarfod. Caiff cofnodion y cyfarfodydd eu cyhoeddi ar wefan y Cynulliad.

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn mynd i gyfarfod y Comisiwn ym mis Gorffennaf ac yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu, a fydd wedi'i amseru i gynorthwyo â'r broses o orffen y cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn crynhoi casgliadau'r Pwyllgor ar y gwaith a wnaeth yn ystod y flwyddyn.

## Cyfrifoldebau

Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheoli a llywodraethu;
- y Datganiad Llywodraethu;
- polisïau cyfrifyddu, cyfrifon ac adroddiad blynyddol y Comisiwn, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w

harchwilio, nifer y camgymeriadau a nodir, a llythyr yn cynnwys sylwadau'r rheolwyr i'r Archwilydd Cyffredinol;

- y gweithgareddau arfaethedig a chanlyniadau archwiliadau mewnol ac allanol;
- digonolrwydd ymateb y rheolwyr i'r materion a nodir drwy weithgareddau archwilio, gan gynnwys y llythyr rheoli archwiliad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- sicrwydd o ran rheoli risg a llywodraethu corfforaethol i'r Comisiwn;
- cynigion i dendro ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol neu i brynu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio; a
- pholisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'r gilydd ac yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Comisiwn.

## Hawliau

Yn amodol ar gyllidebau y cytunir arnynt gan y Comisiwn, gall y Pwyllgor:

- gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod o hyd at flwyddyn (gyda chymeradwyaeth y Swyddog Cyfrifyddu) i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol;
- caffael cyngor ad-hoc arbenigol y telir amdano gan y sefydliad.

## Mynediad

Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru ryddid i siarad yn gyfrinachol â Chadeirydd y Pwyllgor ar unrhyw adeg.

## Cyfarfodydd

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith bob blwyddyn. Gall y Cadeirydd gynnull cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.

Rhaid i o leiaf ddau aelod o'r Pwyllgor fod yn bresennol i sicrhau cworwm.

Fel arfer, bydd y Swyddog Cyfrifyddu, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Adnoddau, y Rheolwr Risg a Llywodraethu, y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

Caiff y Pwyllgor ofyn i unrhyw swyddog arall fod yn bresennol i'w gynorthwyo â'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol.

Caiff y Pwyllgor ofyn i unrhyw rai, neu i bawb, sy'n mynd i'r cyfarfodydd fel arfer ond nad ydynt yn aelodau, adael y cyfarfod er mwyn gallu cynnal trafodaeth agored a gonest ar faterion penodol.

Gall y Comisiwn neu'r Swyddog Cyfrifyddu ofyn i'r Pwyllgor gynnull cyfarfodydd ychwanegol i drafod materion penodol y maent am gael cyngor y Pwyllgor yn eu cylch.

Gofynion o ran gwybodaeth

Darperir y wybodaeth a ganlyn i'r Pwyllgor ym mhob cyfarfod:

- adroddiad yn crynhoi unrhyw newidiadau sylweddol yng Nghofrestr Risg y Comisiwn;
- adroddiad cynnydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol yn crynhoi:
    - y gwaith a gwblhawyd (o'i gymharu â'r gwaith y bwriadwyd ei wneud);
    - materion allweddol sy'n codi o waith Archwilio Mewnol;
    - ymateb rheolwyr i'r argymhellion archwilio;
    - newidiadau i'r cynllun archwilio blynyddol;
    - materion ynghylch adnoddau sy'n effeithio ar y gwaith o gyflawni'r cynllun Archwilio Mewnol;
- adroddiad cynnydd gan gynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru yn crynhoi'r gwaith a wnaed a'r casgliadau sy'n deillio ohono;
- adroddiadau sicrwydd rheolwyr; ac
- adroddiadau ar reoli digwyddiadau mawr, "methiannau agos", a'r gwersi a ddysgwyd.

Pan fo hynny'n briodol, bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael:

- cynigion ar gyfer cylch gorchwyl archwiliadau mewnol / siarter yr archwiliad mewnol;
- y strategaeth archwilio mewnol;
- Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- adroddiadau sicrwydd ansawdd ar y swyddogaeth archwilio mewnol;
- Strategaeth Archwilio flynyddol Swyddfa Archwilio Cymru;
- adroddiad ISA 260 Swyddfa Archwilio Cymru i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- cyfrifon drafft y Comisiwn;
- y Datganiad Llywodraethu drafft;
- Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO);
- adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisïau cyfrifyddu;
- Llythyr Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru;
- adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio;
- adroddiad ar y cydweithredu rhwng archwiliadau mewnol ac allanol;
- Strategaeth Rheoli Risg y Comisiwn;
- manylion am reoli'r portffolio o raglenni / prosiectau newid allweddol; a
- chrynodeb o fentrau newydd.

# Atodiad 2: Yr adolygiadau Archwilio Mewnol a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn

Mehefin 2017

- Lwfansau Aelodau'r Cynulliad (archwiliad ffurfiol)
- Dadansoddiad Bwlch Cynllun Prosiect GDPR yr Undeb Ewropeaidd (archwiliad cynghori)
- Adolygiad o'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau (cynghori)
- Adolygiad Balansau Agoriadol (ffurfiol ar drosglwyddo data i'r system Gyllid newydd)

Tachwedd 2017

- Rheolaethau'r System Cyllid Newydd (archwiliad ffurfiol)
- Timau Integredig Pwyllgorau (archwiliad ffurfiol ond dim barn sicrwydd cyffredinol)
- Argymhellion Archwilio Mewnol – Cymorth Busnes Aelodau – Adroddiad dilynol